Canolradd



national slate museum
amgueddfa lechi cymru

# canolradd

## gweithgareddau 1-6

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# canolradd 1

## bargen

## tiwtor

**Nod: Dysgu mwy o eirfa'r chwarel a thrafod y geiriau newydd efo help lluniau. Bydd hyn yn eu paratoi i wylio 'Naddu'r Graig' ac i weld yr Hollti a'r Naddu.**

**Camau**

1. Cyflwyno'r geiriau a dangos y lluniau. Trafod y geiriau efo partner.

2. Cyflwyno'r broses o chwythu'r graig. Gwylio'r ffilm (heb sain) a gwneud y dasg.

3. Cyfle i sgwrsio gan ddefnyddio'r cwestiynau olaf.

Bydd yr holl luniau, tapiau sain a ffilmiau sy'n angenrheidiol ar gyfer y tasgau ar gael yn yr Amgueddfa.



# canolradd 1

## bargen

## dysgwr

### Mwy o eiriau'r chwarel



**Tîm** Roedd y chwarelwyr yn gweithio mewn timau o bedwar fel arfer – dau yn gweithio ar y bonc a dau yn y wal.

**Bargen** Roedd pob tîm yn cael tua chwech medr sgwâr o'r bonc i weithio arno fo. Bob mis roedden nhw'n bargeinio efo'r stiward am bris y graig. Roedd eu cyflog yn dibynnu ar bris y fargen.

**Creigiwr** Roedd dau greigiwr ym mhob tîm. Roedden nhw'n gweithio ar wyneb y graig ar y bonc. Nhw oedd yn chwythu ochr y mynydd i gael y llechfaen.

**Piler** Dyma'r term am ddarn mawr o graig o'r mynydd.

**Clwt** Roedden nhw'n torri'r pileri yn ddarnau llai – yn glytiau.



**Clytiau** Wedyn roedd y clytiau yn mynd i lawr ar y wagenni i'r wal neu'r sied lle roedd y ddau bartner arall yn gweithio.

**Rybelwr** Roedd rybelwyr yn gweithio i'r timau. Nhw oedd yn clirio'r graig wael. Fel arfer, roedd 'na tua deg tunnell o graig wael i bob un tunnell o graig dda.

**Hollti** Roedd un partner yn hollti'r clytiau. Roedd yn gobeithio cael 16 llechen o bob clwt da.

**Naddu** Roedd y partner arall yn naddu'r llechen i faint arbennig.

**Inclein** Wedyn roedd y llechi'n cael eu pacio a'u cario ar yr incléin i lawr at y llyn. Roedden nhw'n mynd ar y trên i'r Felinheli ac o'r Felinheli i bedwar ban y byd.

### Geirfa



| | | |
|---|---|---|
| cyflog | - | *wage* |
| chwythu | - | *to blast* |
| darn /au | - | *piece/s* |
| gwael | - | *poor quality* |
| tunnell | - | *ton* |
| maint | - | *size* |
| pedwar ban y byd | - | *the four corners of the world* |

# canolradd 1

## bargen

## dysgwr

**Trafodwch ystyr y geiriau yma efo'ch partner:**

tîm
chwythu'r graig
creigiwr
hollti
naddu
inclein
rybelwr
bargen

**Defnyddiwch y lluniau i'ch helpu.**

**Chwythu'r Graig**

Roedd y creigwyr yn:

- tyllu'r graig
- rhoi powdwr du yn y twll
- rhoi ffiws yn y twll
- gwasgu'r llwch
- tanio'r ffiws
- rhedeg i'r Cwt
- clirio'r graig
- torri'r graig yn bileri o lechfaen
- torri'r pileri yn glytiau
- symud y clytiau i'r wal

**Pryd oedd y ffrwydrad yn digwydd? Rhowch y ffrwydrad i mewn yn y rhestr.**

**Edrychwch ar y ffilm i weld y chwarelwyr yn chwythu'r graig. Wrth i chi weld y llun, ticiwch y frawddeg yn y rhestr.**

**Siaradwch am waith y chwarelwyr:**

Oedd o'n waith peryglus?
Oedd o'n waith cyffrous?
Oedd o'n waith caled?
Oes 'na rywun yn eich teulu chi wedi gwneud gwaith tebyg?

# canolradd 2



## cludiant

## tiwtor

**Nod: Dysgu am gludiant yn y chwarel. Deall beth oedd yn digwydd yn y gwahanol weithdai.**

**Camau**

1. Rhannu'n ddau grŵp, un grŵp i gael Taflen 1 a'r llall i gael Taflen 2. Darllen y daflen, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn parau.

2. Gwneud y tasgau mewn parau.


3. Rhannu'n barau newydd, gydag un sy wedi bod yn gweithio ar Daflen 1 yn sgwrsio efo rhywun sy wedi bod yn gweithio ar Daflen 2 er mwyn rhannu gwybodaeth.

4. Dosbarthu Taflen 3 i bawb a gofyn iddyn nhw gerdded o gwmpas y safle i chwilio am yr atebion.

5. Adrodd yn ôl.







# canolradd 2



## cludiant

## dysgwr

**Taflen 1**

Roedd tair system wahanol o gludiant yn Chwarel Dinorwig:

a) i godi'r clytiau a'u cario nhw i'r wal

b) i gario'r llechi i lawr i'r llyn

c) i gario'r llechi i'r porthladd

Dyma luniau o'r wagenni ar y ponciau. Dyma sut roedd llechfaen yn cael ei gario i'r waliau a'r siediau.

Mi gafodd incleiniau eu hadeiladu i gario'r llechi i lawr o'r mynydd at y llyn. Mi gafodd Inclein V2 Chwarel Vivian ei hadeiladu rhwng 1873-1877. Yn 1998 mi gafodd hi ei hadfer gyda help Cronfa'r Loteri. Mae'n gweithio weithiau yn ystod yr haf.



Roedd y tryciau'n cael eu tynnu gyda rhaff wifren i fyny ac i lawr y llethrau. Roedd pwysau'r tryciau llawn ar y ffordd i lawr yn tynnu'r tryciau gwag yn ôl i fyny. Roedd hi'n system effeithiol iawn.

Roedd problemau mawr ar ôl cyrraedd y llyn. Yn 1778 roedd hi'n costio mwy i gario'r llechi i'r Felinheli (efo cwch i Gwm-y-glo a wagenni i'r Felinheli) nag i gario'r llechi ar y llongau o'r Felinheli i Lerpwl.

Mi wellodd pethau yn 1824 pan gafodd tramffordd ceffyl ei hadeiladu.

# canolradd 2

## cludiant

## dysgwr

**Chwiliwch am y gair am:**

*waggons*

*ropeways*

*to restore*

*wire ropes*

*slopes*

*weight*

*effective*

**Beth ydy arwyddocâd** (*significance*):

incléin

Cronfa'r Loteri

pwysau'r tryciau

Y Felinheli

Lerpwl

tramffordd ceffyl

## cludiant

## dysgwr

**Taflen 2**



Roedd tair system wahanol o gludiant yn Chwarel Dinorwig:

a) i godi'r clytiau a'u cario nhw i'r wal

b) i gario'r llechi i lawr i'r llyn

c) i gario'r llechi i'r porthladd

Yn 1848 mi gafodd Rheilffordd Padarn ei hadeiladu. *Jenny Lind* a *Fire Queen* oedd y ddwy injan gyntaf. Mi ddaeth *Dinorwig* – peiriant mawr cryf – yn 1895 ac wedyn *Amalthea* a'r *Velinheli*. Roedden nhw'n tynnu'r trenau bob dydd tan 1961. Dim ond unwaith wnaeth y trên fethu mynd – adeg eira mawr 1929.



Yn 1895 roedd dros mil o ddynion yn teithio i'r gwaith bob dydd ar y trên. Ar fore Llun a phnawn Sadwrn roedd 'na ddau gerbyd ychwanegol i gario gweithwyr o Fôn oedd yn aros yn y Barics am yr wythnos.

Ar y trên, roedd gan bawb docyn – wedi'i wneud o bres – efo rhif sedd a rhif cerbyd. Roedd rhaid i bawb eistedd yn yr un sedd bob dydd – hogyn ifanc wrth ochr dyn profiadol. Roedd y dynion hŷn yn cadw trefn ar yr hogia ifanc. Ar bob taith roedd 'na fforman i gadw trefn ar bawb. Roedd hyn yn bwysig iawn.

*Una* ydy enw'r injan sy yn yr Amgueddfa heddiw. Dyma'r math o injan stêm oedd yn gweithio yn y chwareli. Mi gafodd *Una* ei hadeiladu gan gwmni Hunslet o Leeds yn 1905. Yn Chwarel Pen-yr-orsedd, Dyffryn Nantlle roedd hi'n gweithio.

Erbyn heddiw maen nhw wedi adfer *Una* ac mae hi'n gweithio'n gyson yn Llanberis.

# canolradd 2



## cludiant

## dysgwr

**Chwiliwch am y gair am:**

*tramway* ____________________

*extra carriage* ____________________

*brass* ____________________

*seat* ____________________

*to keep order* ____________________

*to restore* ____________________

*consistently* ____________________

**Beth ydy arwyddocâd** (*significance*):

*Jenny Lind* a *Fire Queen*

mil

eira mawr

Barics

tocyn pres

cadw trefn

*Una*

# canolradd 2

## cludiant

## dysgwr

**Taflen 3**

**Y gweithdai**

Mi gafodd gweithdai'r Gilfach Ddu eu hadeiladu yn 1870 yn arbennig i drwsio holl offer, peiriannau a system gludiant y chwarel.

Gwaith anodd oedd cael y llechfaen o'r mynydd. Roedd angen cledrau ar y ponciau er mwyn cael wagenni i gario'r clytiau i'r siediau.

Roedd angen coed i wneud sliperi i'r rheilffyrdd bach.

Roedden nhw'n llifio'r coed (coed o Stad y Faenol) yn y Gilfach Ddu.

Yn lle yno? ____________________

Roedd angen cledrau i'r rheilffyrdd bach.
Roedd angen rhaffau dur i ddal y wagenni.

Roedden nhw'n gwneud y rhain yn y Gilfach Ddu

Yn lle yno? ____________________

Roedd angen rhaffyrdd yn yr awyr i symud wagenni.

Roedden nhw'n gwneud y rhain yn y Gilfach Ddu.

Yn lle yno? ____________________

Roedd angen darnau newydd i beiriannau'r chwarel, i'r trenau ac i'r llongau.

Roedden nhw'n gwneud y rhain yn y Gilfach Ddu.

Yn lle yno? ____________________

Roedden nhw'n trwsio'r trenau yn y Gilfach Ddu.

Yn lle yno? ____________________

Roedd crefftwyr y Gilfach Ddu yn gwneud yr holl waith cynnal a chadw yn y chwarel.

Dyna pam roedden nhw'n dweud mai'r Gilfach Ddu oedd 'calon' Chwarel Dinorwig.

# canolradd 2

## cludiant

## dysgwr

**Ewch am dro o gwmpas y gweithdai i weld lle roedd y gwaith yn cael ei wneud.**

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| cledrau | - | *rails* |
| llifio | - | *to saw* |
| rhaffau dur | - | *steel ropes* |
| rhaffyrdd | - | *ropeways* |
| darnau | - | *parts* |
| cynnal a chadw | - | *maintenance* |

# canolradd 3

## hollti a noddu

tiwtor

**Nod: Gweld chwarelwr yn hollti a naddu llechi.**

**Camau**

1. Gwylio sesiwn Hollti a Naddu;  sesiwn mwy anodd y tro hwn.





# canolradd 4

## tai Fron Haul

tiwtor

**Nod: Gwylio fideo am symud y tai ac ateb cwestiynau.**

**Camau**

1. Trafod stori'r tai: darllen y brawddegau cyntaf. Gwylio'r ffilm nes bod y grŵp yn medru ateb y cwestiynau trwy weithio mewn parau.

2. Darllen y brawddegau nesaf. Gwylio eto ac ateb y cwestiynau mewn parau.



# canolradd 4

## tai Fron Haul

**dysgwr**

| | Gwir | Gau |
|---|---|---|
| Mae rhes o dai yn cael eu symud. | | |
| Maen nhw'n cael eu symud o Danygrisiau ger Blaenau Ffestiniog i Gaernarfon. | | |
| Ffermwyr oedd yn byw ynddyn nhw. | | |
| Mae Gerallt Nash yn gweithio yn Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru. | | |
| Mae 'na drên stêm yn yr Amgueddfa yn Llanberis. | | |
| Roedd hi'n ddiwrnod braf yno. | | |
| Dafydd Jones sy'n gweithio yn yr Amgueddfa Lechi. | | |

---

Rhifau 1-6 Fron Haul, Tanygrisiau ydy enw'r tai.

Mi gaethon nhw eu hadeiladu yn 1865.

Mae angen rhoi rhif ar bob bric, carreg,
llechen a drws cyn eu tynnu i lawr.

Jig-so mawr 3D ydy o.

Yn ôl Dafydd Roberts, mae'r tai'n bwysig
achos eu bod nhw'n dweud stori'r bobl oedd yn byw yno.

Mae'r tai yn dangos sut roedden nhw'n
- a) paratoi bwyd
- b) dodrefnu'r tai.

Maen nhw'n dangos
- a) pa ddillad oedd gynnyn nhw
- b) pa deganau oedd gan y plant.

# canolradd 5

## tŷ'r prif beiriannydd a rhif 2 Fron Haul tiwtor

**Nod: Ymweld â Thŷ'r Prif Beiriannydd a Rhif 2 Tai Fron Haul, sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y ddau a'u trafod mewn grwpiau.**

**Camau**

1. Cyflwyno'r taflenni.

2. Rhannu'r grŵp yn ddau – un i bob tŷ i weithio ar y tasgau.

3. Ymweld â'r ail dŷ yn gyflym cyn mynd yn ôl i Stafell Padarn i drafod efo partner o'r grŵp arall.



# canolradd 5

## tŷ'r prif beiriannydd a rhif 2 Fron Haul dysgwr

**Grŵp A – Tŷ'r Prif Beiriannydd**

**Darllenwch y panel.**

Y Prif Beiriannydd oedd y dyn mwyaf ________________ ar y safle.

Y Prif Beiriannydd a'i ________________ oedd yn byw yma.

Mae'r tŷ yma wedi'i ddodrefnu (*to furnish*) fel tai o tua ________________ .

Roedd y Faenol, plasdy ________________ yn llawer mwy crand.

Doedd 'na ddim tŷ arall ar y safle nag yn yr ardal.

Yr unig ferched yn y chwarel oedd y merched yn y tŷ yma.

Roedd hi'n eithaf unig yma.

Sut le oedd yma pan oedd y peiriannau i gyd yn gweithio?

Faint o lwch (*dust*) a sŵn oedd yma?

Fasech chi'n licio byw yma yn 1910?

# canolradd 5

## tŷ'r prif beiriannydd a rhif 2 Fron Haul dysgwr

**Ewch i mewn i'r tŷ**

(Mae'r stafell olchi yn dod o'r 1940au)

**Sylwch ar y gegin.**

Oedd 'na dap yn y sinc? ____________________

Oedd 'na drydan yna? ____________________

Lle oedd y merched yn coginio?

Pa fath o offer cegin (*kitchen equipment*) oedd yno? ____________________

Sut lawr oedd yno? Sut oedden nhw'n golchi'r llawr? ____________________

Lle oedden nhw'n sychu dillad? ____________________

**Beth am y stafell fyw?**

Oedd y stafell yn gyfforddus? ____________________

Beth oedd ar y llawr? ____________________

Oedd 'na waith glanhau yno? ____________________

Beth oedd diddordebau'r teulu? ____________________

Beth oedd yn y parlwr? ____________________

Dach chi'n cofio stafelloedd fel y rhain? ____________________

Oes 'na rywbeth fasech chi'n licio'i gael yn eich cartref chi? ____________________

**Yn Stafell Padarn trafodwch:**

Beth sy'n debyg yn y ddau dŷ?

Beth sy'n wahanol yn y ddau dŷ?

# canolradd 5

## tŷ'r prif beiriannydd a rhif 2 Fron Haul dysgwr

**Grŵp B – Rhif 2 Fron Haul**

Mae'r tŷ yma wedi'i ddodrefnu fel tai ym _________, adeg Streic Fawr _________ .

(Doedd y tŷ yma ddim yn agos i'r chwarel)

**Ewch i mewn i'r tŷ a sylwch:**

Faint o stafelloedd sy yma? ____________________

Oedd 'na gegin yn y tŷ? ____________________

Oedd 'na ddŵr yn y tŷ? ____________________

Oedd 'na drydan yn y tŷ? ____________________

Beth oedd ar y llawr? ____________________

Lle oedd y merched yn golchi? ____________________

Lle oedden nhw'n paratoi bwyd? ____________________

Lle oedden nhw'n coginio bwyd? ____________________

Sut dach chi'n gwybod bod y teulu'n dlawd? ____________________

Faint o ddodrefn oedd yn y tyˆ? Sut ddodrefn oedden nhw? ____________________

Beth oedd ar y llawr? ____________________

Oedd o'n gyfforddus? ____________________

Beth oedd diddordebau'r teulu? ____________________

Dach chi'n cofio tai fel hwn? ____________________

Oes 'na rywbeth fasech chi'n licio'i gael yn eich cartref chi? ____________________

**Cofiwch fynd i weld beth sy yng nghefn y tŷ**

Beth sy yn yr ardd gefn? ____________________

**Yn Stafell Padarn siaradwch am beth dach chi wedi'i weld:**

Beth sy'n debyg yn y ddau dŷ?

Beth sy'n wahanol yn y ddau dŷ?

# canolradd 6

## sesiwn ddillad yn y tai

**tiwtor**

**Nod: Cymryd rhan mewn sesiwn i drafod dillad.**

**Camau**

1. Mynd â'r grŵp i'r Tŷ Addysg, Rhif 4 Fron Haul. Yno, bydd y Swyddog Addysg yn cynnal gweithdy ymarferol, yn cynnwys cyfle i drin a thrafod rhai o'r pethau yn y tai, yn arbennig dillad. (Bydd angen bwcio sesiynau efo'r Swyddog Addysg ymlaen llaw.)

2. Ar ddiwedd y sesiwn mynd a'r grŵp yn ôl i Stafell Padarn i drafod.

